**Enghreifftiau o weithgareddau gwrando a gwneud:**

- Gêm Ust! - Gwrando am 10/15 eiliad. Adrodd nôl beth a glywyd.
- Sibrwd - Y disgyblion yn gwrando ar neges a'u llygaid ar gau yna'n ail ddweud y neges ac ymateb.
- Curo rhythm – y disgyblion yn efelychu'r curiad. Yma gellir defnyddio amrywiol offerynnau gan greu curiadau tawel, uchel, cryf, cyflym a.y.b.
- "Rwy'n gweld gyda'm llygad bach i -------" geiriau yn dechrau/ gorffen/ cynnwys _______
- Y fasged - "Yn y fasged mae -------" - ail ddweud y frawddeg gan ychwanegu gwrthrych.
- "Mae Simon yn dweud..." gan wrando a dilyn y cyfarwyddyd.
- Dysgu caneuon, hwiangerddi a rhigymau.
- Creu brawddegau gwirion gan odli: Pam yn bwyta ham; Sws i pws ar y bws.
- Dewis yr un od, e.e. m, m, c, m / cap, tap, moron, map / jar, car, tar, dawnsio
- Gwrando ar synau ar dâp – sŵn beth? trên, car, drws yn cau, a.y.b.
- Cyflythrennu, e.e. Broga yn bwyta bara brown. Datblygu: Bili Broga yn bwyta bara brown. a.y.b.
- Dilyn cyfarwyddiadau; e.e. Ymlaen 2 gam: i'r chwith dau gam a.y.b.
- Ymateb i'r gorchmynion: Cerddwch i'r cornel coch: Sgipiwch i'r cornel melyn, a.y.b.
- Pwy sy'n gwneud beth? Rhaid gwrando ar yr enw a'r cyfarwyddyd, e.e Luke –neidia; Maddison – gwena, a.y.b.
- Rhedeg a rhewi. Y disgyblion i greu synau ond pan mae'r athro yn dweud "rhewwch" – neb i symud braich na choes neu byddant allan o'r gêm.